

**LLAIS**

**GWIRFODDOL**

**20 mlynedd!**

**FLVC**

Flintshire Local Voluntary Council  
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

**Corlan**

**Penblwydd Hapus i Ni!**  
**1997 - 2017**

Rhifyn 01- 2017  
[www.flvc.org.uk](http://www.flvc.org.uk)

Rhif Elysen 1062644

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 3301204

# YN Y RHIFYN HWN

- 2 Yn y Rhifyn Hwn / Am FLVC
- 3 Nodiadau gan Ann
- 4 Ariannu
- 6 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 8 Er Gwybodaeth
- 9 Gwirfoddoli
- 10 Materion Ariannol / The Printroom

GALLWCH FOD YN RHAN  
O'R CYLCHLYTHYR HEFYD !

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna ebostiwch eich erthygl atom:

Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu,  
Corlan, Parc Business yr Wyddgrug,  
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir y  
Fflint, CH7 1XP

info@flvc.org.uk  
01352 744000

## *Fuasech chi'n fodlon derbyn ein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost?*

Bu inni anfon arolwg at ein hapddalwyr yn ddiweddar a bu i dros 80% o'r ymatebwyr ddatgan y byddan nhw'n fodlon derbyn y ddogfen hon ar-lein. Byddwn yn anfon e-bost at bawb ar ein basdata yn fuan yn gofyn y cwestiwn yma.

Bydd copïau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copïau caled. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost [jane.hewson@flvc.org.uk](mailto:jane.hewson@flvc.org.uk)

## CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT (FLVC)

### Ein Gweledigaeth :

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint

### Ein Cenhadaeth :

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

## Y DIWEDDARAF GAN GYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT

Yn ddiweddar, bu i aelodau Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir y Fflint ganolbwyntio ar Aseiad Llesiant y Sir. Hefyd bu'r aelodau yn canolbwyntio ar sut gall bartneriaid ymdrechu hyd eu heithaf er mwyn cyflawni amcanion llesiant cytunedig. Gan gydymffurfio gyda Deddf Llesiant Cenedloedd y Dyfodol (Cymru) 2015, bydd yr aseiad yn help inni ganolbwyntio ar wella lles amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Bu i Is-grwpiau y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Cryfhau Gwytnwch y Gymuned
- Ehangu'r model 'Pwynt Mynediad Unigol' i gydweithio gyda Theuluoedd a Phlant drwy Hwb Ymyrraeth Gynnar.

Ymysg y gwaith rhanbarthol rydym yn helpu datblygu Fforwm Gwerth Cymdeithasol ar gyfer Gogledd Cymru (fel rhan o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant). Bydd cydweithio gyda'n cydweithwyr ym Mantell Gwynedd (Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Gwynedd) yn help inni gefnogi mudiadau'r Trydydd Sector i gynnig tystiolaeth fanylach o effaith llawn gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol. Mae FLVC hefyd yn cydweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chyngor Gofal dros Gymru i weithio ar y cyd gyda phartneriaid statudol er mwyn gofalu eu bod yn 'Manteisio i'r Eithaf ar y Trydydd Sector' yn eu strategaethau Comisiynu.

Mae FLVC yn cydweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru i adolygu Cynllun Busnes Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru (TSSW) – sut gall TSSW gefnogi'r Sector orau?

Cofiwch roi gwybod inni sut allwn ni gefnogi eich mudiad yn fwy effeithiol ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol.

Buomwrtheinboddgyda'rymatebi'nHyfforddiant Cyflwyno i Wirfoddolwyr Cyffredinol. Mae'r cwrs 10 awr yn cynnig cyflwyniad i'r egwyddorion, y gwaith a'r cyfrifoldebau ynghlwm â gwirfoddoli ar gyfer gwirfoddolwyr o unrhyw fudiad. Rydym yn ymdrin â'r polisiau allweddol (Cyfrinachedd, Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch,

Diogelu). Hefyd rydym yn ymdrin â gwaith y gwirfoddolwr a'u mudiad cefnogi gyda datblygu ymarfer da. Bu i bawb a gymrodd rhan yn y cwrs ei werthfawrogi a chynnig adborth cadarnhaol dros ben. Cysylltwch gyda'n canolfan gwirfoddoli i wybod mwy.

Mae FLVC yn gweithio tuag at ennill Marc Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr. Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (liV) ydy safon ansawdd Prydain dros ymarfer da yn ymwneud â rheoli gwirfoddolwyr. I wybod mwy am y safon ac i fanteisio ar gefnogaeth er mwyn cychwyn ar y broses, anfonwch e-bost at Emma Gough ar [emma.gough@flvc.org.uk](mailto:emma.gough@flvc.org.uk).

(Yn ogystal â chefnogi'r Trydydd Sector ehangach, mae FLVC yn croesawu gwirfoddolwyr i helpu gyda gwaith gweinyddol ac ein amryw brosiectau Gwirfoddoli wedi eu Cefnogi (Prosiectau ar y cyd gyda Mind Sir y Fflint, Cymdeithas Awstistiaeth Cenedlaethol Cymru a Gwasanaethau Cyfannol i Bobl Ifanc Sir y Fflint).

Bu i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi eu hadroddiad ynghylch cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer mudiadau'r Trydydd Sector. Roedd Sir y Fflint yn un o'r 6 ardal awdurdod i'w dewis ar gyfer yr adolygiad. Gallwch fwrw golwg ar y ddogfen ar <http://www.audit.wales/system/files/publications/Third-sector-funding-eng.pdf>.

Ac yn olaf un....

Fel y gwelwch o'r clawr y rhifyn hwn, yn 2017 byddwn yn dathlu 20 mlynedd o wasanaeth gan FLVC. Cadwch eich llygaid ar agor am ddigwyddiadau i ddathlu'r digwyddiad mawr.

Cofion Gorau



Chief Officer  
01352 744028

[ann.woods@flvc.org.uk](mailto:ann.woods@flvc.org.uk)

# ARIANNU

## Cist Gymunedol Sir y Fflint

Gall mudiadau sy'n gwneud lles i bobl o Sir y Fflint bellach wneud cais am grant o hyd at £1,000 ar gyfer y mentrau canlynol:

- Prosiectau cyfalaf bach er enghraifft, atgyweirio adeiladau a diweddarau darnau gosod a chelfi mewnol
- Digwyddiadau cymunedol
- Offer ond nid nwyddau traul\*
- Cyhoeddusrwydd / marchnata
- Digwyddiadau/cyrsiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth

Cysylltwch gyda June Brady am becyn cais sy'n cynnwys y meini prawf llawn a'r ffurflen gais.

[june.brady@flvc.org.uk](mailto:june.brady@flvc.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington

Mae Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington wedi ail-lunio ei rhaglen gyllid ar gyfer 2017. Gall mudiadau elusennol wneud cais am arian sy'n cefnogi'n uniongyrchol y thema y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i dewis ar gyfer y flwyddyn honno. Bwriad yr arian ydy cefnogi mudiadau sy'n ymgymryd â phrosiectau mewn amryw o feysydd gwahanol ac mae'n gweithio ar system gylchdroi o dair blynedd gyda meysydd gwahanol o ddiddordeb yn cael eu hariannu bob blwyddyn.

Y rowndiau nesaf ydy -

- Cerddoriaeth a'r Celfyddydau. Y cyfnod ymgeisio ydy 1 - 31 Ebrill. Bydd grantiau o £5,000 ar gael i elusennau gydag incwm gweithredol sydd o leiaf £1 miliwn.
- Cerddoriaeth a'r Celfyddydau. Y cyfnod ymgeisio ydy 1 - 31 Gorffennaf. Bydd grantiau o £1,000 ar gael i elusennau gydag incwm gweithredol sydd o leiaf £50,000 a dim mwy na £1 miliwn.
- Yr Henoed. Y cyfnod ymgeisio ydy 1 Medi i 31 Hydref. Bydd grantiau o £5,000 ar gael i elusennau gydag incwm gweithredol sydd o leiaf £1 miliwn

Gall elusennau ymgeisio am un rownd yn unig y flwyddyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn bod ceisiadau yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl cyn y dyddiad cau fel bod gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o amser i ofyn am unrhyw wybodaeth bellach os bydd angen.

Mae mwy o fanylion ar gael ar: <https://austin-hope-pilkington.org.uk/> or email: [admin@austin-hope-pilkington.org.uk](mailto:admin@austin-hope-pilkington.org.uk)

## Plant Mewn Angen y BBC

Mae Plant Mewn Angen y BBC yn rhoi grantiau o dros £10,000 i gefnogi prosiectau am hyd at dair blynedd gan fudiadau nid-er-elw sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 18 oed ac iau sydd dan anfantais oherwydd:

- Salwch, gofid, camdriniaeth neu esgeulustra
- Unrhyw fath o anabledd
- Problemau ymddygiad neu seicolegol
- Byw mewn tldi neu amddifadedd

Mae llefydd ar gael o hyd i siarad yn uniongyrchol gyda James Bird o elusen Plant Mewn Angen ar y 19eg o Ebrill yng Nghyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint. I gadw lle cysylltwch gyda June Brady ar [june.brady@flvc.org.uk](mailto:june.brady@flvc.org.uk)

Mae'n rhaid i'r mudiadau weithio i ymladd yn erbyn yr anfantais hon ac i wneud gwir wahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc.

Does dim uchafswm ar gyfer y Prif Grantiau ond dim ond ychydig o grantiau dros £120,000 (neu £40,000 y flwyddyn) sydd ac mae'r rhan fwyaf o grantiau yn llawer llai.

Y dyddiadau cau ar gyfer 2017 ydy: 1 Mehefin a 13 Medi.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/60DXIxYvbbtcTDM79Mjryj/main-grants-should-i-apply> neu ffoniwch y Ddesg Gymorth ar 0345 609 0015.

## Sefydliad Gofal Iechyd Barchester

Mae Sefydliad Gofal Iechyd Barchester yn derbyn ceisiadau gan grwpiau cymunedol bach a grwpiau lleol bach sy'n helpu pobl dros 18 oed sydd ag anableddau corfforol neu feddyliol a phobl hŷn dros 65 oed.

Mae Sefydliad Gofal Iechyd Barchester yn elusen gofrestredig sydd a'i chanolfan yn Llundain. Cafodd ei sefydlu gan Ofal Iechyd Barchester yn 2000 er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau lle mae cartrefi gofal Barchester yn gweithredu ynddyn nhw.

Mae blaenoriaeth y Sefydliad yn parhau ers 2016: cysylltu neu ailgysylltu pobl gyda phobl eraill yn eu cymuned.

Caiff ceisiadau sy'n ymladd yn erbyn unigrwydd ac yn rhoi cyfle i bobl gysylltu a chymryd rhan eu



blaenoriaethu fwyaf trwy gydol y flwyddyn.

Mae grantiau rhwng £100 a £5,000 ar gael i grwpiau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae modd cyflwyno ceisiadau ar-lein unrhyw bryd.

Mae mwy o fanylion ar gael ar: <http://www.bhcfoundation.org.uk/who-we-fund> neu ffoniwch 0800 328 3328 neu anfonwch e-bost at: [info@bhcfoundation.org.uk](mailto:info@bhcfoundation.org.uk)

## Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau newydd ar gyfer Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

Bu i ffenestr datgan diddordeb bellach agor ym mis Chwefror 2017. Mae'r grantiau wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a mudiadau eraill sy'n gweithio yn y gymuned.

Mae'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig wedi'i sefydlu er mwyn rhoi cyfle i brosiectau gydag isadeileddau bach wella cydlynid cymunedol yn ardaloedd gwledig Cymru.

Bwriad y Gronfa ydy cefnogi:

- Gwellhad neu dyfiant gwasanaethau lleol a syml
- Cludiant cymunedol a chysylltedd
- Prosiectau ynni adnewyddadwy
- Adnewyddu pentrefi a chyfleusterau cyhoeddus

Am gefnogaeth gyda llunio cynlluniau datblygu a chynlluniau diogelu a rheoli, bydd y cyfraniad grant mwyaf yn ddim mwy na: 50% o gostau cymwys. Bydd angen i'r grant fod o leiaf £400.

Am gefnogaeth gydag astudiaethau a buddsoddiadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw, adfer ac uwchraddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, bydd y cyfraniad grant mwyaf yn ddim mwy na: 50% o gostau cymwys. Bydd angen i'r grant fod o leiaf £400.

Ar gyfer hwyluso cyflenwad a defnydd adnoddau adnewyddadwy o ynni, o isgynhyrchion, gwastraff a gweddill a deunydd amrwd difwyd arall bydd y cyfraniad grant mwyaf yn ddim mwy na 80% o holl gostau cymwys y prosiect. Bydd angen i'r grant fod o leiaf £2,400.

Ar gyfer buddsoddiadau mewn isadeileddau bach y grant mwyaf sydd ar gael i bob prosiect

ydy £128,000 tuag at gyfanswm costau prosiect o £160,000. Caiff cyfradd gefnogi o 80% o gostau cymwys ei darparu.

Efallai y bydd busnesau, mudiadau cyhoeddus, gwirfoddol, cymunedol a'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru wledig yn gymwys i wneud cais.

Mae rownd newydd wedi agor gyda gwahoddiad i ymgeiswyr wneud cais trwy ddatgan diddordeb erbyn 31 Mawrth 2017.

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/rural-community-development-fund/?lang=en>

## Sefydliad Esmée Fairbairn

Mae 10,000 o bobl ifanc dros 16 oed yn ymadael â gofal bob blwyddyn ym Mhrydain, gyda thraean ohonyn nhw'n gwneud hynny cyn iddyn nhw droi yn 18 oed o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol lle mae 50% yn dal i fyw gyda'u rhieni yn 24 oed. Mae hanner o'r bobl ifanc hyn sydd wedi ymadael â gofal yn credu eu bod nhw wedi gorfod gwneud hynny yn rhy fuan a'u bod nhw wedi derbyn cefnogaeth wael a diffyg paratoad i ymdopi â'r her o fod yn oedolyn.

Mewn ymateb i hyn, bydd Sefydliad Esmée Fairbairn yn gwario dros £2 filiwn y flwyddyn am o leiaf pum mlynedd i gefnogi pobl ifanc sy'n ymadael â gofal i gynnal perthynas iach gyda phobl eraill a derbyn cefnogaeth fwy cyson ac o safon well gan y wladwriaeth.

Y bwriad ydy:

- Sicrhau bod ymadawyr gofal yn gallu meithrin perthynas iach yn haws gyda phobl eraill fydd o gymorth iddyn nhw drawsnewid yn llwyddiannus i oedolaeth.
- Sicrhau bod pobl ifanc sy'n ymadael â gofal yn derbyn cefnogaeth statudol gyson ac o safon uchel sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae modd cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd.

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar: <http://esmeefairbairn.org.uk/what-we-fund/young-people-leaving-care> neu ffoniwch 020 7812 3700 neu anfonwch e-bost at: [info@esmeefairbairn.org.uk](mailto:info@esmeefairbairn.org.uk)

# DIGWYDDIADAU A HYFFORDDIANT

## GRŴP CEFNOGI POBL SY’N DIODDEF O BOEN PARHAOL GOGLEDD

### Helpu pobl sy’n byw gyda Phoen Parhaol

Lansiad ar ddydd Llun Ebrill y 3ydd am 12.30yp yn Ysbyty Cymunedol Treffynnon.

- Ydych chi, neu rywun annwyl ichi, yn dioddef o Boen Parhaol neu wedi eich effeithio gan Boen Parhaol?
- Hoffech chi gyfarfod â phobl eraill sy’n medru uniaethu â’ch trafferthion mewn amgylchedd cyfeillgar, cyfrinachol a chefnogol?

Os felly, rhowch wybod inni a galwch heibio. Mae’r grŵp cefnogi yn cyfarfod ar ddydd Iau Ebrill y 6ed yna dydd Iau cyntaf pob mis am 6.30yh yn y neuadd fawr yng Nghanolfan Gymunedol Parkfields, Llwyn Onn, Yr Wyddgrug. CH7 1TB (Union o flaen Ysbyty Cymunedol Yr Wyddgrug).

Neu mae croeso ichi ddod i Ysbyty Cymunedol Treffynnon ar ddydd Llun Mai’r 8fed am 12.30yp. Yna bydd y cyfarfodydd yn yr ystafell seminar ger y drws ffrynt ar ddydd Llun cyntaf pob mis.

Bydd trafodaethau difyr ar hunan-help.

Bydd paned ar gael a bydd croeso cynnes ichi i gyd.

I wybod mwy, cysylltwch ag Angela e-bost [nwcpsg@gmail.com](mailto:nwcpsg@gmail.com) 01352 756565



Mae Canolfan Farchogaeth Arbennig Clwyd

**yn casglu stampiau**

Oes gennych chi stampiau yr hoffech chi eu cyfrannu?

Dewch â nhw draw i Ganolfan Farchogaeth Arbennig Clwyd neu anfonwch nhw at:

**Canolfan Farchogaeth  
Arbennig Clwyd,  
Llanfynydd, Sir y Fflint.  
LL11 5HN**

## CYMDEITHAS AWTISTIAETH GENEDLAETHOL

“Dros gyfnod o 22 mlynedd, dim ond un person sydd wedi cynnig helpu. Mae’r rhan fwyaf yn syllu a gwneud sylwadau.”

Mae’n bryd cymryd rhan er mwyn inni fedru atal profiadau fel hyn. Bydd yr arian wedi ei gasglu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth y Byd (Mawrth y 27ain – Ebrill yr 2il) yn mynd tuag at ariannu ymgyrchoedd hanfodol. Ymysg yr ymgyrchoedd mae ‘Gormod o Wybodaeth’ sy’n gyfle i’r cyhoedd ddsygu a deall mwy am Awtistiaeth, y person sydd ag Awtistiaeth a sut i ymateb i sefyllfaoedd. Gyda’n gilydd, gallwn newid y syniad o fod yn ymwybodol o awtistiaeth i fedru deall awtistiaeth.

Gallwch gynnal pob mathau o ddigwyddiadau i godi arian, hyd yn oed dawnsio efo cylchau hwla noddedig neu Jengathon!

Ewch i <http://bit.ly/WAAW2017F> i fwrw golwg ar y canllaw codi arian rhad ac am ddim.

# DIGWYDDIADAU A HYFFORDDIANT

## CYRSIAU CYFLWYNIAD ACHREDEDIG I'CH GWIRFODDOLWYR

Mae FLVC yn cynnig y 2 Cwrs Cyflwyniad i Wirfoddolwyr canlynol I worfoddolwyr / gwirfoddolwyr dichonol sy'n gysylltiedig a mudiadau yn Sir y Fflint

### Teitl y Cwrs : Cyflwyniad i Wirfoddolwyr

Lefel: Lefel Mynediad 2 - Gwerth Credit : 2

Cwrs Diwrnod : 19 & 23 Mehefin 9.30-3.30

Cwrs Nos : 10th, 17th and 24th Mai 6.00-9.00

Nifer yr oriau: 10 (yn ustod deuddydd neu dair noswaith)

Cost y pent: O AM DDIM hyd at £80

(yn dibynnu ar drothwy incwm eich mudiad)

Mae'r cwrs wedi ei achredu gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru (2 gredyd ar Lefel Mynediad 2) a byddwn yn ymdrin ag agweddau cyffredinol y canlynol:

- Iechyd a Diogelwch
- Cyfleoedd Cyfartal
- Cyfrinachedd
- Ffiniau
- Cefnogi a Goruchwylio Gwirfoddolwyr
- Agweddau sylfaenol Diogelu (cyflwyniad cryno)



Mae modd addasu'r cwrs i weddu i wahanol waith Gwirfoddoli'r mynychwyr ar ran eu mudiad – (Mae gofyn i fudiadau rannu Disgrifiad o'u Gwaith Gwirfoddol gyda FLVC cyn y cwrs).

Bydd strwythur i'r cwrs ond bydd hefyd yn anffurfiol. Bydd cyfle i'r rheiny sy'n cymryd rhan gwblhau portffolio byr, yn cynnwys tystiolaeth, i'w gyflwyno er mwyn derbyn Achrediad am eu gwaith (dewisol). Bydd tîm staff Canolfan Wirfoddoli FLVC wrthlaw, i gefnogi'r rheiny sy'n cymryd rhan, drwy gydol y cwrs.

I wybod mwy, cysylltwch gyda: Jane Hewson, FLVC Ffôn: 01352 744030 [info@flvc.org.uk](mailto:info@flvc.org.uk)

## CYRSIAU WEDI'U TREFNU GAN FLVC

Cwrs Sylfaenol ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu ar gyfer Cymru gyfan

27 Ebrill 2017

Cost £30 i'r rheiny sydd ddim yn aelodau / £20 aelodau

Gweithdy Makaton i Dechreuwyr

11 & 18 Mai 2017

Cost £60 i'r rheiny sydd ddim yn aelodau / £40 aelodau

Gweithdy Datblygu Strategol

13 Gorffennaf 2017

Cost AM DDIM

I wybod mwy neu i gadw lle nrhyw un o'r cyrsiau hyn, anfonwch e-bost at Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu – FLVC on: [jane.hewson@flvc.org.uk](mailto:jane.hewson@flvc.org.uk)

# ER GWYBODAETH

## PQASSO – SICRHAU ANSAWDD MEWN MUDIADAU TRYDYDD SECTOR

Do you want to strengthen gYdych chi'n awyddus i gryfhau prosesau llywodraethu, darparu gwell gwasanaethau i ddefnyddwyr, gwella arferion gweithredu a dangos y canlyniadau yn well yn eich mudiad trydydd sector?

Mae'n dod yn fwyfwy pwysig i fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru ddangos eu perfformiad, eu heffeithiolrwydd a'u heffaith i gyllidwyr, comisiynwyr, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Mae PQASSO yn helpu mudiadau'r trydydd sector i edrych ar yr hyn maent yn ei wneud mewn ffordd systematig, gweld beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd ddim cystal, a phenderfynu ble yn union mae angen gwneud gwelliannau.

Mae PQASSO yn ymdrin â phob agwedd ar waith mudiad gan gynnwys llywodraethu, cynllunio, arwain a rheoli, rheoli pobl, rheoli arian a chanlyniadau ac effaith. Ar ôl i fudiad weithredu PQASSO, gall wneud cais am Nod Ansawdd PQASSO, yr achrediad allanol ar gyfer PQASSO, sy'n dangos bod y mudiad wedi cyrraedd safon ansawdd PQASSO ar lefel benodol.

Mae rhagor o wybodaeth am PQASSO a Nod Ansawdd PQASSO yma.

### Cynllun peilot Hanfodion PQASSO

Er bod hyblygrwydd PQASSO yn golygu bod mudiadau'r trydydd sector o bob math a maint yn gallu ei ddefnyddio ac yn ei ddefnyddio, rydym hefyd yn gwybod bod angen



cam cyn PQASSO weithiau ar fudiadau a grwpiau bach iawn y trydydd sector er mwyn eu helpu i adolygu pa mor dda mae eu grŵp neu eu mudiad yn ei wneud a sut y gall ddatblygu a chryfhau.

Bwriad Hanfodion PQASSO yw gwneud hynny.

Bwriad Hanfodion PQASSO yw helpu grwpiau a mudiadau llai y trydydd sector:

- nad ydynt wedi adolygu'r grŵp neu'r mudiad cyfan erioed o'r blaen a'u bod yn awyddus i wneud 'archwiliad cyflwr' sylfaenol er mwyn gwybod pa feysydd y mae angen iddynt eu datblygu a'u cryfhau
- sy'n awyddus i ddechrau cyflwyno gwelliannau parhaus o ansawdd a'u hymgorffori yn eu gwaith
- ydd angen fframwaith i gefnogi datblygiad eu grŵp neu eu mudiad, ac
- sy'n awyddus i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon wrth eu gwaith.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am gynllun peilot Hanfodion PQASSO a chofrestru i gymryd rhan.

I gael rhagor o wybodaeth am PQASSO a datblygiadau PQASSO yng Nghymru, cysylltwch â Heledd Kirkbride, Swyddog Ymgysylltu PQASSO yn [heledd.kirkbride@ncvo.org.uk](mailto:heledd.kirkbride@ncvo.org.uk) neu 07890 637865 | 029 2043 1716.

## MENTRAU IAITH SIR Y FFLINT

Blas ar Bopeth! - Rho gynnig ar 'neud rhywbeth newydd drwy'r Gymraeg!

Dyna neges prosiect Blas ar Bopeth. Beth am ddysgu iaith? Crefft neu sgil newydd? Yn ystod misoedd y gwanwyn bydd Menter Iaith Sir y Fflint yn cynnal cyfres o weithdai cymunedol gan gynnwys gweithdai coginio gyda chogyddion Caffi Florence, creu gemwaith gyda Gaenor Roberts o gwmni TLWS, a chyfres o wersi Almaeneg neu Sbaeneg trwy'r Gymraeg. Mae croeso mawr i ddysgwyr ar y cyrsiau.

Meddai Rebecca Roberts, Swyddog Iaith a Threftadaeth Menter Iaith Sir y Fflint, "Dyma gyfle gwych i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu sgil newydd ar yr un pryd! Mae Menter Iaith Sir y Fflint yn falch i allu cynnig cyfleodd hwyliog i bobl o bob oed i gael defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd. Mae hwn hefyd yn gyfle arbennig i ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi a'r dosbarth, gan gymhathu gyda'r gymuned Gymraeg leol."

Mae'r cyrsiau am ddim, ond mae llefydd yn gyfyngedig felly bydd rhaid cadw lle trwy e-bostio [rebecca@misyff.co.uk](mailto:rebecca@misyff.co.uk) neu drwy ffonio 01352 744042.



# GWIRFODDOLI

## Llongyfarchiadau i Kyle Astbury a Jamie O'Connor am dderbyn Gwobrau Gwirfoddolwr y Mileniwm.



Bu i Jamie dderbyn tystysgrif am wirfoddoli am 50 awr a derbyniodd Kyle dystysgrifau am wirfoddoli am 50 awr a 100 awr. Bu i'r ddau ennill y tystysgrifau am wirfoddoli yng Nghanolfan Coffa'r Rhyfel a Siop Elusen Barnardo's.

Gobeithio y byddan nhw'n gweithio tuag at dderbyn mwy o wobrau yn y dyfodol agos.

## Cleveland W Jones yn derbyn ei wobwr Dathlu Gwirfoddoli y Cyfarfod Blynyddol yng Ngorsaf Drenau Bwcle.



Dros y blynyddoedd, bu iddo ddod i adnabod sawl un o'r gyrrwyr trenau. Dyma fo gyda gyrrwr Arriva, Dave Nixon, Chris Ablett o FLVC a'r Cynghorydd Richard Jones.

Mae Cleveland yn gwirfoddoli yn yr orsaf pob diwrnod bron er mwyn gofalu ei fod yn edrych le deniadol a chroesawgar ar gyfer ymwelwyr. Mae'n rhan annatod o gynllun "Mabwysiadu Gorsaf" Arriva lle mae mewn cyswllt rheolaidd gydag Arriva.

# MATERION ARIANNOL

## CYFRADDAU'R ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL A'R CYFLOG BYW CENEDLAETHOL

BLWYDDYN	25 +	21 - 24	18 - 20	< 18	PRENTIS
2017	£7.50	£7.05	£5.60	£4.05	£3.50
2016	£7.20	£6.95	£5.55	£4.00	£3.40

**MAE'R CYFRADDAU YN NEWID BOB 1 EBRILL**

# THE PRINTROOM

## Argraffu o ansawdd i bawb

## Gwallgofrwydd y Gwanwyn?

the **PRINTROOM**  
Quality printing for everyone

*Competitive prices!*  
10% discount for FLVC members!

Flyers - Calendars - Banners - Posters to A4  
Greetings Cards - Newsletters - Booklets  
New Full Graphic Design Service

01352 744031  
theprintroom@flvc.org.uk  
Cortyn, Unit 3, Mold Business Park,  
Wrexham Road, MOLD, Flintshire CH7 3XP

FLVC

Ydych chi'n barod i hysbysebu eich digwyddiadau gwanwyn? Os felly, beth am fanteisio ar ein gostyngiad ychwanegol o 10% ar bob set o daflenni A5 a phosteri A4 y byddwn ni'n eu hargraffu i chi yn ystod mis Ebrill 2017. Ydi, mae hyn ar ben y 10% y byddwn ni eisoes yn ei roi drwy'r flwyddyn i aelodau FLVC!

Mae hyn yn golygu y gallech chi gael 1000 o daflenni A5 am gyn lleied â £30! A pheidiwch ag anghofio am ein baneri feynyl sy'n fargen o hyd am £36 am faner 6 troedfedd wrth 2 droedfedd.

Mae gennym ni hefyd nifer o eitemau newydd e.e. bwydlenni y gallwch chi eu sychu â chadach, a beth am roi rhai o'ch hoff ffotograffau ar gynfas. Galwch heibio am sgwrs ac i weld samplau.

Beth am wneud y Printroom yn ddewis cyntaf ar gyfer eich holl anghenion argraffu?!

the **PRINTROOM**  
Quality printing for everyone

*Competitive prices!*  
10% discount for FLVC members!

Flyers - Calendars - Banners - Posters to A4  
Greetings Cards - Newsletters - Booklets  
New Full Graphic Design Service

01352 744031

FLVC

**FLVC** Supporting Promoting Developing

Flintshire Local Voluntary Council  
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

Am fwy o wybodaeth a dyfyniadau, cysylltwch â ni ar  
**01352 744031** neu ebost [theprintroom@flvc.org.uk](mailto:theprintroom@flvc.org.uk)